EUR-05-01(p8)

**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Dydd Mercher 17 Hydref, 2001** |
| **Amser** | **9.30am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell pwyllgor 3** |

**Teitl: Llywodraethu Ewropeaidd – Papur ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd 17 Hydref 2001**

**Cefndir**

1. Mae Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Romano Prodi, wedi cyhoeddi mai hybu ffurfiau newydd ar Lywodraethu ar lefel Ewropeaidd fydd un o bedwar amcan strategol y Comisiwn Ewropeaidd yn ystod 2000-2004. Yn ystod rhan gyntaf 2001 bu'r Comisiwn yn ysgogi deialog eang ar y mater hwn er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer Papur Gwyn gan y Comisiwn.

2. Sylfaen yr holl ymarfer hwn yw'r syniad bod yn rhaid i'r CE adfywio ei berthynas â'i bartneriaid – llywodraethau, awdurdodau rhanbarthol a lleol, cyrff an-llywodraethol, y gymdeithas sifil a chyhoedd yr UE.

3. Mae'r broses ehangu i gynnwys gwledydd Dwyrain Ewrop yn ogystal ag ynysoedd Môr y Canoldir, wedi rhoi hwb ychwanegol i'r broses. Ni welwyd ymledu ar y raddfa hon o'r blaen ac mae'n cynnig sialens anferth i'r UE o ran y ffordd y mae'n gwneud ei waith. Mae pawb yn cydnabod na all UE gyda bron i ddeg ar hugain o Aelod-wladwriaethau weithredu yn yr un modd ag yn y gorffennol.

4. Cyhoeddwyd Papur Gwyn y Comisiwn "European Governence", sy'n crynhoi syniadau'r Comisiwn hyd yn hyn, ddiwedd mis Gorffennaf (gweler yr adran nesaf). Mae'r Papur Gwyn yn rhan o broses o edrych ar ddulliau o lywodraethu a fydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Mae adran olaf y papur briffio yn egluro'r amserlen debygol a sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu chwarae rhan yn y drafodaeth honno.

**Beth mae'r Papur Gwyn yn ei Ddweud?**

5. Cyhoeddodd y Comisiwn "European Governence: A White Paper" ar 25 Gorffennaf eleni.

Mae'n ddogfen 35 tudalen o hyd a dylai partneriaid sydd â diddordeb arbennig yn yr agwedd hon ar yr UE ei darllen yn ei chyfanrwydd. Ceir crynodeb gweithredol ar ddechrau'r ddogfen hefyd.

6. Ar ddechrau'r papur, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod gwendidau yn y ffordd y mae'r UE yn gwneud ei waith a bod argraff ar led bod pellter cynyddol rhwng sefydliadau a dinasyddion. Cydnabyddir bod y bleidlais nacaol yn refferendwm Gweriniaeth Iwerddon ar Gynhadledd Ryng-lywodraethol Nice a'r protestiadau diweddar mewn cynadleddau Ewropeaidd yn brawf o'r ymbellhau hwn.

7. Mae paradocs sylfaenol ynghlwm â'r broblem hon, ***"Ceir yr argraff bod yr Undeb yn rhy bell ond ei fod hefyd yn ymyrryd gormod"***. Mae hyn yn arbennig o wir yn y DU gan fod rhai elfennau o'r cyfryngau yn portreadu'r UE fel sefydliad busneslyd sy'n ceisio cipio pwerau'r Aelod-wladwriaethau oddi arnynt. Gellid dadlau bod y pwyslais yng Nghymru yn fwy cadarnhaol (yn gymharol) gan fod y cyfryngau yn tueddu i ganolbwyntio ar raglenni'r UE yng Nghymru (e.e. y PAC a chronfeydd strwythurol) felly rhoddir sylw i faterion o bwys o leiaf. Ond gan fod mwyafrif pobl Cymru yn dibynnu yn helaeth ar gyfryngau Llundain am wybodaeth mae'r sefyllfa gyffredinol yn y DU yn siwr o effeithio arnom ninnau hefyd.

8. Efallai y gellir crynhoi neges y Papur Gwyn yn y frawddeg ***"Mae'n bryd cydnabod bod yr Undeb wedi symud o broses ddiplomataidd i broses ddemocrataidd, gyda pholisïau sy'n effeithio'n fawr ar gymdeithasau cenedlaethol a bywyd pob dydd"***. Mewn geiriau eraill, rhaid gweithredu er mwyn cael gwared ar yr argraff bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail barn pymtheg – neu faint bynnag – o bobl yn eistedd o gwmpas bwrdd. Yn ddiweddar, mae Senedd Ewrop wedi dod yn fwy dylanwadol ac mae hyn wedi gwella ei hygrededd democrataidd (er bod pryder bod llai a llai o bobl yn pleidleisio mewn etholiadau iddi) ond mae'n rhaid i'r UE ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach os yw am sicrhau unrhyw beth tebyg i gyfranogiad llawn.

9. Mae'r papur yn rhoi pwyslais mawr ar swyddogaeth rhanbarthau a'r gymdeithas sifil yn y broses ymgynghori***, "Rhaid gwella cysylltiadau â llywodraeth leol a rhanbarthol a'r gymdeithas sifil. Yr Aelod-wladwriaethau ddylai fod yn bennaf gyfrifol am hyn"***. Â yn ei flaen i ddweud y dylai'r Comisiwn ei hun wneud mwy i gael ***"deialog systematig"*** gyda chynrychiolwyr llywodraethau rhanbarthol.

10. Mae'r pwyntiau uchod yn crynhoi hanfod y mater. Ni all yr Undeb Ewropeaidd a'r sefydliadau roi pwerau ychwanegol i'r Cynulliad: mater i'r Aelod-wladwriaethau eu hunain, nid yr UE, yw eu trefniadau llywodraethau mewnol. Mae profiad diweddar Cymru ers datganoli yn gadarnhaol iawn. Mae'r trefniadau a ddatblygwyd gyda llywodraeth y DU yn galluogi'r Cynulliad i chwarae rhan bositif a chyflawn iawn yn Ewrop. Mae'n bwysig ein bod yn cynnal deialog gyda llywodraeth y DU a'n partneriaid datganoledig eraill ynghylch datblygu ein cyfranogiad ar lefel Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod yn rhaid cael ***"deialog systematig"*** gyda llywodraethau rhanbarthol. Mae hyn i'w groesawu'n fawr. Mae'r Comisiwn yn croesawu deialog fel arfer ond nid yw hyn yn digwydd yn systematig ym mhob maes.

11. Mae'r Papur Gwyn yn nodi pum egwyddor a ddylai fod yn sail i lywodraethu da: tryloywder, cyfranogiad, atebolrwydd, effeithiolrwydd a chydlyniad. Yn ei hanfod, y farn yw mai'r ffordd orau o lunio polisïau cadarn yw cael gwared ar yr hen ddulliau ***"o'r pen i lawr"*** ac, yn lle hynny creu ***"cylch rhinweddol"*** sy'n seiliedig ar ymateb, rhwydweithiau a chynhwysiant.

12. ***"Yn aml, mae rhanbarthau a dinasoedd yn teimlo nad yw'r UE yn eu defnyddio fel sianelau etholedig a chynrychioladol i drafod polisïau'r UE â'r cyhoedd, er bod ganddynt swyddogaethau cynyddol o ran gweithredu eu polisïau."*** Mae Cymru yn elwa'n fawr o fod yn rhan o'r UE. Mae'r Cynulliad a'n partneriaid eraill yng Nghymru mewn sefyllfa dda i wneud synnwyr o bolisïau'r UE mewn ffordd sy'n ddealladwy i bobl gan fod bron bob rhan o Gymru yn elwa'n uniongyrchol o fentrau'r UE. Gellid dadlau nad yw mor hawdd dangos hyn ar lefel y DU.

13. Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu cynyddu rôl Pwyllgor y Rhanbarthau ac, yn benodol, y dylai chwarae rhan mwy proactif o ran paratoi adroddiadau cychwynnol cyn i'r Comisiwn wneud argymhellion (ar hyn o bryd mae'n tueddu i ymateb i argymhellion dim ond ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi).

14. Mae'r Papur Gwyn yn argymell creu cod ymddygiad a fyddai'n nodi'r safonau ymgynghori sylfaenol y disgwyl i'r Comisiwn gwrdd â hwy – cam positif y byddem yn ei groesawu.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

15. Prif Weinidog Cymru sy'n gyfrifol am bolisi Ewropeaidd. Bydd yn ystyried ei ymateb i'r Papur Gwyn mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Wrth gwrs, nid oes dim i rwystro'r pleidiau rhag anfon ymateb annibynnol ac uniongyrchol i'r Comisiwn.

16. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn yw 31 Mawrth 2002.

17. Bwriedir anfon ymateb drafft y Prif Weinidog at aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y man. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i roi eu barn ar y Papur Gwyn, un ai yn awr neu yn y cyfarfod nesaf. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a fyddai'n ddefnyddiol trafod y Papur Gwyn yn y Cyfarfod Llawn, ac i ddatgan barn ar hynny.

18. Bydd y drafodaeth ar Lywodraethu yn drafodaeth ddeublyg. Gall arwain at gymryd camau yn fuan mewn meysydd lle gellir gweithredu yn gyflym. Ond ceir trafodaeth ar yr un pryd ynghylch "Dyfodol Ewrop". Dechreuodd y drafodaeth hon ar ôl Cynhadledd Ryng-lywodraethol Nice a bydd yn arwain y ffordd ar gyfer Cynhadledd Ryng-lywodraethol arall yn 2004. Ei bwrpas yw edrych ar y materion cyfansoddiadol a allai godi yn dilyn ehangu. Nid yw union fanylion y drafodaeth hon wedi'u pennu eto ond dylent ddod yn fwy clir ar ôl Cynhadledd Laeken ym Mrwsel ym mis Rhagfyr eleni, lle mae Gwlad Belg, sy'n llywyddu ar hyn o bryd, yn gobeithio yr arwyddir datganiad a fydd yn nodi'r prif faterion i'w hystyried.

**Desmond Clifford**

**Brwsel Hydref 2001**